**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

12 Mai 2023

Annwyl Peredur

Un o argymhellion adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) oedd y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys chwyddiant yn yr amcangyfrifon o gostau i gyd-fynd â Biliau yn y dyfodol.

Mae swyddogion Trysorlys Cymru wedi ystyried yr argymhelliad a'r wybodaeth ariannol a gyflwynir ar hyn o bryd yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer pob Bil. Mae'r swyddogion wedi dod i'r casgliad bod y dull presennol o lunio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn parhau'n gywir. Mae canllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF yn glir na ddylid ystyried chwyddiant prisiau cyffredinol mewn dadansoddiadau cost a budd cymdeithasol. Y sail resymegol dros beidio ag ystyried chwyddiant prisiau cyffredinol yw bod hyn yn darparu sail gyson ar gyfer cymharu cost a budd amrywiol opsiynau, ac mae'n sicrhau na fydd y dadansoddiad yn cael ei lurgunio gan effeithiau chwyddiant.

Fodd bynnag, mae'r swyddogion wedi dod i'r casgliad hefyd y dylai cynnwys dadansoddiad ariannol atodol sy'n canolbwyntio ar fforddiadwyedd fodloni argymhelliad y Pwyllgor. Bydd y dull hwn hefyd yn helpu i ddangos bod gwerth am arian a fforddiadwyedd yn cael ystyriaeth briodol yn ystod y broses o ddatblygu deddfwriaeth.

Yn ogystal ag ymgorffori chwyddiant prisiau cyffredinol, bydd yr asesiad o fforddiadwyedd yn gwneud nifer o addasiadau eraill i'r data yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, gan ganolbwyntio ar gostau cyfalaf a refeniw. Bydd yn asesu a fydd modd ariannu'r costau hynny o gyllidebau presennol a'r cyllidebau a ragwelir ar gyfer y dyfodol.

Bydd yr wybodaeth ariannol atodol hon yn cael ei chynnwys yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer pob Bil a gyflwynir o Flwyddyn 3 y rhaglen ddeddfwriaethol bresennol. Ni fydd y dull presennol o lunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'i gyflwyno yn y Memorandwm Esboniadol yn newid.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu parhaus ar oblygiadau ariannol deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ac rwy'n gobeithio y bydd y dull a nodir uchod o gymorth i'r Aelodau wrth iddynt ymgymryd â'r gwaith pwysig hwn.

Yn gywir



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government